

Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn

Adroddiad Terfynol

Yr Adroddiad Dros Dro

1. Ar 21 Gorffennaf 1999 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad dros dro ar ei ymchwiliad i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn a oedd yn cynnwys ei asesiad o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn diddymu'r gwaharddiad.

2. Rhoddodd y Pwyllgor bwyslais ar y cyngor meddygol a gafwyd a'r pryderon a fynegwyd gan rai cynrychiolwyr ffermwyr na ddylid diddymu'r gwaharddiad yn erbyn cyngor gwyddonol a meddygol. Pleidleisiodd mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor o blaid y penderfyniad canlynol:

i) i sicrhau ei fod wedi archwilio'r holl dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn bwriadu aros nes y bydd Prif Swyddog Meddygol Cymru yn gwneud datganiad ar y goblygiadau i iechyd y cyhoedd drwy ddiddymu'r gwaharddiad er mwyn gwneud ei argymhelliad i'r Cynulliad;

ii) bydd y Cynulliad yn cwrdd cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl hynny i gytuno ar ei argymhellion i'r Cynulliad.

Datblygiadau ar ôl yr adroddiad dros dro

3. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad interim, ystyriodd y Pwyllgor ddatganiadau pellach oddi wrth Brif Swyddogion Meddygol Cymru, Lloegr a'r Alban. Yr oedd y tri'n dal i gytuno y dylai'r gwaharddiad ar ddefnyddio esgyrn cig eidion wrth weithgynhyrchu bwyd barhau.

4. Hyd at ddiwedd mis Tachwedd, yr oedd Prif Swyddogion Meddygol Cymru a'r Alban hefyd yn teimlo bod y perygl i iechyd y cyhoedd drwy ddiddymu'r gwaharddiad ar werthiannau manwerthol yn dal i fod yn annerbyniol. Teimlent fod angen gweld tystiolaeth lawn a therfynol cyn gwneud unrhyw argymhelliad i ddiddymu'r gwaharddiad. Cadarnhawyd hyn gan Brif Swyddog Meddygol Cymru fel ei barn hithau yn ei thystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor ar 13 Hydref.

5. Roedd barn Prif Swyddog Meddygol Lloegr ar effaith diddymu'r gwaharddiad ar fanwerthu bryd hynny yn wahanol i'w gymheiriaid yng Nghymru a Lloegr. Yn ei gyngor diweddaraf, yr oedd Prif Swyddog Meddygol Lloegr yn argymhell fel a ganlyn: *'a decision to lift the bone-in beef ban should in my assessment be informed by the fact that the additional risk to human health created would at this stage of the cattle epidemic be tiny and unquantifiable in any meaningful way'*.

6. Pan gyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad dros dro, yr oedd yn cael ar ddeall bod unfrydedd barn

rhwng y pedwar Prif Swyddog Meddygol. Yn sgil y cyhoeddiad ym mis Medi, ac o'r cyngor a roddwyd gan Brif Swyddog Meddygol Lloegr ddiwedd Gorffennaf, daeth y Pwyllgor yn ymwybodol bod ganddo farn wahanol am oblygiadau diddymu'r gwaharddiad yn rhannol.

7. Ar ôl cyhoeddi ei adroddiad dros dro, gwelodd y Pwyllgor hefyd ohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Athro Roy Anderson, pennaeth Grp Rhydychen. Mae ymchwil Grp Rhydychen – sy'n dangos y graddau y mae BSE wedi ymledu yn y fuches, yn rhan allweddol o'r dystiolaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 4 uchod, ac ar y dystiolaeth honno y mae'r Prif Swyddogion Meddygol wedi seilio'u cyngor. Barn bersonol Yr Athro Anderson oedd y dylai'r gwaharddiad gael ei godi ar unwaith.

8. Ymddangosodd Prif Swyddog Meddygol Cymru gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Tachwedd pan y bu iddi gadarnhau y byddai'r dystiolaeth ar gael cyn diwedd mis Tachwedd ac y câi ei harchwilio ar unwaith gan y pedwar Prif Swyddog Meddygol.

9. Ar 1 Rhagfyr, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar bellach gan Brif Swyddog Meddygol Cymru yn ogystal â datganiad ysgrifenedig ar y cyd â Phrif Swyddogion Meddygol eraill y Deyrnas Unedig. Ar ôl gweld ymchwil ddiweddaraf Rhydychen ac ar ôl trafod ei goblygiadau â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill, teimlai Prif Swyddog Meddygol Cymru y gellid codi'r gwaharddiad ar werthiannau manwerthol.

Casgliad

10. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ers dechrau'r ymchwiliad, cytunodd y Pwyllgor y dylid argymhell codi'r gwaharddiad ar werthiannau manwerthol a chadw'r gwaharddiad ar ddefnydd mewn gweithgynhyrchu.

Penderfyniad

Yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 1999, pleidleisiodd y Pwyllgor yn unfrydol o blaid y cynnig canlynol:

Yn dilyn y cynnig y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar 21 Gorffennaf 1999, mae'r Pwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, yn penderfynu argymhell i'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn, ac eithrio i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu nwyddau bwyd (gan gynnwys bwyd babanod) ac yn galw ar Gabinet y Cynulliad i gyflwyno rheoliad i roi'r penderfyniad hwn ar waith.

11. Ceir rhestr o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad dros dro yn Atodiad A.

Atodiad A**Tystiolaeth a ddaeth i law ers cyhoeddi'r adroddiad dros dro**

21 Medi - y Pwyllgor yn cael [cyngor ysgrifenedig](#) pellach oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru. Dilynwyd hyn gan [ddatganiad](#) gan y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Nick Brown, lle bu'n cyfeirio at y cyngor diweddaraf a gafodd oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Lloegr.

13 Hydref - y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- y datganiadau diweddaraf o gyngor oddi wrth Brif Swyddogion Meddygol [Cymru](#), [Lloegr](#) a'r [Alban](#);
- [tystiolaeth](#) Prif Swyddog Meddygol yr Alban i Bwyllgor Materion Gwledig Senedd yr Alban.
- yr [ystadegau](#) diweddaraf sydd ar gael am glefydau BSE a vCJD.
- [tystiolaeth](#) bellach ar lafar oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru.

27 Hydref - Cadeirydd y Pwyllgor wedi [ysgrifennu](#) at yr Athro Anderson, pennaeth Grp Rhydychen.

2 Tachwedd - Yr Athro Anderson wedi [ymateb](#) i Gadeirydd y Pwyllgor.

1 Rhagfyr - derbyniodd y Pwyllgor [dystiolaeth](#) lafar bellach gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a datganiad ysgrifenedig pedwar Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig (atodiad B). Ystyriodd y Pwyllgor hefyd [ddatganiad](#) Prif Swyddog Meddygol Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [cofnodion](#) y drafodaeth ddilynol a'r [ystadegau](#) diweddaraf ynghylch BSE a vCJD.

Atodiad B

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Joint statement by the United Kingdom Chief Medical Officers of 30 November 1999

The Chief Medical Officers of each of the four United Kingdom countries have received the latest

predictions on the bovine spongiform encephalopathy (BSE) epidemic in cattle produced by the Wellcome Trust Centre for the Epidemiology of Infectious Disease at the University of Oxford.

Over the past six months they have reviewed the position of the bone in beef ban in the light of surveillance of the variant Creutzfeldt Jakob (vCJD) incidence in the human population, trends in the BSE epidemic in cattle (including the latest estimates from the Oxford group), and audits of the control measures which are in place to exclude potentially infected BSE material entering the human food chain.

They are reassured by the continuing decline of the BSE epidemic in cattle. In particular the latest Oxford estimate that the number of BSE infected cattle under 30 months which could enter the human food chain within 12 months of clinical infection is now estimated as only 1.2 cattle across Great Britain as a whole in the year 2000 (with a margin of error on this estimate of 0 to 4 cattle).

On the basis of their discussions and this analysis they have concluded that:

These circumstances would allow the beef on the bone ban to be lifted for retail sales, whilst allowing consumer choice.

In the light of continuing uncertainty about the infectivity of bone marrow (where further experiments are ongoing), the retention of the ban on the use of bones for manufactured and processed products would be prudent.

It is important to retain and rigorously enforce other control measures for protecting the human food chain from cattle over 30 months infected with BSE.

The human vCJD epidemic should continue to be monitored very closely.

New research evidence in relation to any aspect of animal or human transmissible spongiform encephalopathies (TSEs) should be reviewed as soon as it is available.

Sir David Carter, Chief Medical Officer Scotland

Dr Ruth Hall, Chief Medical Officer Wales

Dr Henrietta Campbell, Chief Medical Officer Northern Ireland

Professor Liam Donaldson, Chief Medical Officer England

30 November 1999